OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2916 (Cy.241)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (Rhif 2) 2010

Gwnaed - - - -	*7 Rhagfyr 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Rhagfyr 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 188(1) a (2)(d) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (Rhif 2) 2010 a daw i rym ar 1 Ionawr 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio is-ddeddfau 24 a 25 Cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru

2.—(1) Yn is-ddeddf 24(**2**) Cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru(**3**) –

(a) ym mharagraff (b), yn lle "For the purposes of Section 37 (2) of the Salmon Act 1986, the" rhodder "The"; a

(b) ym mharagraff (c), yn lle "For the purposes of Section 37(1) of the Salmon Act 1986, any" rhodder "Any".

(**1**) 2009 p.23.

(**2**) Mae is-ddeddf 24 Cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru bellach yn cael effaith megis petai wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol o ran yr un ardal o Gymru ag yr oedd yr is-ddeddf honno yn gymwys iddi yn rhinwedd Erthygl 13(3) ac Atodlen 4 i Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630) (p.42).

(**3**) Diddymwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, o ran Cymru, ar 1 Ebrill 2010 pan ddaeth Erthygl 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (p.42)) ag adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i rym, gyda'r effaith o ddiddymu Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 (p.38).